| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **FFORWM CYLLIDEB YSGOLION** |
| **DYDDIAD** | **04 Gorffennaf 2016** |
| **TEITL** | **Cyfrifon Terfynol Ysgolion Blwyddyn Gyllidol 2015/16** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno er gwybodaeth** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Derbyn yr adroddiad** |
| **AWDUR** | **Arwyn Thomas, Pennaeth Addysg** |
| **AELOD CABINET DROS ADDYSG** | **Y Cynghorydd Gareth Thomas** |

**1 Cyfrifon Terfynol 2015/16**

1.1 Atodir er gwybodaeth manylion balansau ysgolion ar 31 Mawrth 2016 (**atodiad 1**).

1.2 Crynodeb o falansau ysgolion ar 31/03/2016 -

| | canran | 31/03/2015 | cynnydd+/ lleihad- | 31/03/2016 | canran |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynradd | 7.32% | £2,613,766 | -£134,325 | £2,479,441 | 6.91% |
| Uwchradd | 2.45% | £820,055 | -£28,240 | £791,815 | 2.37% |
| Arbennig | 2.80% | £61,760 | +£3,554 | £65,314 | 2.74% |
| **Cyfanswm** | **4.89%** | **£3,495,580** | **-£159,010** | **£3,336,570** | **4.66%** |

1.3 Yn gyffredinol, mae balansau holl ysgolion Gwynedd wedi gostwng £159,010 yn ystod 2015/16 i £3,336,570 sy'n cyfateb i 4.66% o'u dyraniad terfynol.

1.4 Mae gan 16 ysgol ddiffyg ariannol ar ddiwedd 2015/16 gwerth £447,692 o'i gymharu gyda 15 ar ddiwedd 2014/15 gwerth £327,873.

- 11 Ysgol Gynradd gyda chyfanswm diffyg £96,263 (amrywio rhwng £778 a £38,345)
- 4 Ysgol Uwchradd gyda chyfanswm diffyg £297,238 (amrywio rhwng £37,815 a £118,686)
- 1 Ysgol Arbennig gyda diffyg £54,191

1.5 Gwelir lleihad ym malansau Ysgolion Cynradd am y tro cyntaf ers 2010.

## 2 Cynllun Cyfarwyddo Defnydd Balansau

2.1 Mae gan yr Adran Addysg rym i gyfarwyddo'r corff llywodraethu sut i wario'r elfen o'u balansau sydd dros y trothwy o £50,000 i Ysgolion Cynradd ac £100,000 i Ysgolion Uwchradd ac Arbennig.

2.2 Mae'r drefn gweithredu yn parhau fel y llynedd.

2.3 Mae colofn 'F' ar atodiad 1 yn amlygu'r symiau ariannol sydd dros y trothwyon.

## 3. Casgliad

3.1 Mae cyfanswm a chanran balansau Ysgolion Cynradd Gwynedd yn parhau'n uchel ac yn parhau i achosi pryder.

3.2 Mae'r ffaith bod gan Wynedd ysgolion gyda diffyg ariannol yn peri pryder. Mae'r cynnydd yn y nifer ysgolion gyda diffyg a gwerth y diffyg hwnnw hefyd yn achosi pryder.

3.3 Yn sgil yr angen i ysgolion ddarganfod arbedion yn 2016/17 a 2017/18, rhagwelir lleihad pellach ym malansau ysgolion erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon.

## 4. Argymhelliad

**4.1 Dylai'r Adran Addysg a'r Adran Gyllid gydweithio yn agos gyda'r ysgolion gyda diffyg ariannol er mwyn sicrhau eu bod yn clirio'r diffyg cyn gynted â phosib.**

**4.2 Dylai'r Adran Addysg a'r Adran Gyllid barhau i fonitro cyllidebau ysgolion.**